
# CORFF LLYWODRAETHU
# YSGOL GYMRAEG BRO OGWR
# ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI
# 2022-2023

# *YSGOL GYMRAEG BRO OGWR*
# *GOVERNING BODY*
# *ANNUAL REPORT TO PARENTS*
# *2022-2023*



## Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno ein hadroddiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023 i chi. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae aelodau'r Corff Llywodraethol wedi parhau i herio a chefnogi'r ysgol i sicrhau bod ansawdd yr addysg a ddarperir i'ch plant o'r safon uchaf. Mae llywodraethu yn rôl ddi-dâl ac mae ein llywodraethwyr yn gwirfoddoli ochr yn ochr ag ymrwymiadau gwaith, teulu a phersonol. Daw ein llywodraethwyr o amrywiaeth o gefndiroedd a defnyddiant eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd i sicrhau bod yr ysgol y gorau y gall fod a'i bod yn chwarae rhan weithredol ym mywyd y gymuned. Mae llywodraethwyr yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cwblhau hyfforddiant datblygu. Eleni rydym wedi croesawu'r llywodraethwyr newydd canlynol: Mr B Morgan, Mrs C Johnson, Miss E Evans a Mrs C Davies. Diolchwn i Ms S Jones a Mr E Roberts am eu ymroddiad a'u ymrwymiad i'r ysgol yn ystod eu amser fel llywodraethwyr. Ar amser cyhoeddi, nid yw'r Corff Llywodraethol yn dal unrhyw swyddi gwag ac yn llawn.

Fel Llywodraethwyr mae gennym gyfrifoldeb i weithio gyda'r Pennaeth, yr Uwch Dîm Arwain a staff i ddarparu amgylchedd dysgu cyffrous a bywiog i ddisgyblion yr ysgol. Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys sicrhau bod y gyllideb yn cael ei gwario'n ddoeth a bod staffio'n briodol. Mae llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus ac fel ysgol rydym yn cyflawni gwerth rhagorol am arian. Ar hyn o bryd, rydym yn gwynebu toriadau cyllid gan yr awdurdod lleol ac eleni welwn blwyddyn 3 a 4 yn cyfuno mewn i ddosbarthiadau cymysg oed. Rydym hefyd yn gyfrifol am eiddo ac iechyd a diogelwch yr ysgol. Rydym yn parhau i ariannu datblygiadau i'r ardaloedd awyr agored er budd ein disgyblion a'n staff. Rydym eisoes yn gweld effaith apwyntiad Mr N Brown llynedd fel Swyddog Safle ac yn estyn diolch i Mr Brown, Mrs Thomas a Brian Jones (Keep Wales Tidy) a'r holl ddisgyblion oedd yng nghlwm gyda ail-agoriad gardd yr ysgol 'Gardd Wellingtonia' ym mis Mai er cof ein ffrind a chyfaill annwyl Mrs Sonia Gatt.

Eleni mae'r disgyblion wedi mwynhau hyd yn oed mwy o ymglymiad cymunedol a thripiau a gweithgareddau ysgol. Braf oedd gweld lansiad sesiwn babi a phlant bach 'Ti a Fi' ar fore dydd Mawrth yn yr ysgol, gwersi Sbaeneg a cherddoriaeth a chlywn fod Bl2 ar hyn o bryd yn cwblhau'r ddefod ysgol gynradd honno o wersi recorder desgant. Mae clybiau ar ôl ysgol wedi ailddechrau ac wrth gwrs gweithgareddau chwaraeon; mae ysbryd cystadleuol bythol boblogaidd y 'Trawsgwlad' yn cael ei ailgynnau bob tymor yr Hydref. Diolchwn i chi, fel rhieni a gofalwyr, am barhau i gefnogi gweithgareddau o'r fath yn yr ysgol, gan ein bod yn credu'n gryf fod y rhain i gyd yn brofiadau allweddol i'r plant ac yn rhai y byddant yn eu cofio am flynyddoedd i ddod. Diolch enfawr i Ffrindiau am ail-sefydlu'r grwp ac am eu holl ymdrechion i godi arian eleni hyd hyn.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol mewn perthynas â'n hadeilad ysgol newydd yn Ffordd Cadfan ac edrychwn ymlaen at rannu mwy o ddiweddariadau dros y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni/gofalwyr trwy alwadau ffôn, y system negeseuon testun, gwefan a grŵp Facebook caeedig. Yn yr hinsawdd presennol, mae'r ysgol yn parhau i gefnogi pob aelod o gymuned yr ysgol ac yn parhau i ariannu darpariaeth fel ELSA, Thrive, cymorth galw heibio rhieni/gofalwyr a sesiynau lles. Mae'r ysgol yn cynnig gwisg ysgol am ddim yn y dderbynfa, sydd ar agor yn ystod oriau ysgol i bob rhiant.

Arhoswch yn ddiogel ac yn iach yn yr amseroedd presennol a pheidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r ysgol os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch, boed yn academaidd neu'n fugeiliol/personol. Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus i'n hysgol a'ch plant.

Nik Dart, Cadeirydd y Llywodraethwyr

***Message from the Chair of Governors***

*It gives me great pleasure to present to you our report for the academic year 2022-2023. Over the past year, members of the Governing Body have continued to challenge and support the school to ensure that the quality of education provided for your children is of the highest standard. Governance is an unpaid role and our governors volunteer alongside work, family and personal commitments. Our governors come from a variety of backgrounds and use their skills, knowledge and expertise to ensure that the school is the best it can be and that it plays an active part in the cluster and community. Governors meet regularly and complete development training as standard. This year we have welcomed the following new governors: Mr B Morgan, Mrs C Johnson, Miss E Evans, Mrs T Davies and Mrs C Davies. Thank you to Mrs S Jones and Mr E Roberts for their contribution to the school during their time as governors. At the time of writing the Governing Body is not holding any vacancies and is at full complement.*

*As Governors we have a responsibility to work with the Headteacher, Senior Leadership Team and staff to provide an exciting and vibrant learning environment for the pupils at the school. Our responsibilities include ensuring that the budget is spent wisely and that staffing is appropriate. Governors monitor spending carefully and as a school we achieve excellent value for money. We are currently subject to budget cuts from the local authority and this year saw a merge of Bl3 and Bl4 into a mixed age curriculum offer. We are also responsible for the healthy eating, premises and health & safety at the school. We continue to fund developments to the outdoor areas for the benefit of our pupils and staff. The appointment of Mr N Brown to the full-time Premises Officer role last year is already having a considerable impact and we thank Mr Brown, Mrs Thomas, Brian Jones (Keep Wales Tidy) and all pupils involved in the re-opening of the school garden 'Gardd Wellingtonia' in May, which is named in memory of our dear friend and colleague Mrs Sonia Gatt.*

*This year the pupils have enjoyed even more community involvement and school trips and activities. It was great to see the launch of the school 'Ti a Fi' baby and toddler session on Tuesday mornings at the school, Spanish and music lessons and we hear that Bl2 are currently completing that primary school ritual of descant recorder lessons. After-school clubs have recommenced and of course sporting activities; the ever-popular 'Trawsgwlad' competitive spirit is reignited every Autumn term. We thank you, as parents and carers, for continuing to support such school activities, as we firmly believe that these are all key experiences for the children and ones which they will remember for years to come. A big thank you also to Ffrindiau for re-establishing the group and all their fundraising efforts this year to date.*

*We continue to work with the local authority in respect of our planned new school build at Ffordd Cadfan and look forward to sharing more updates over the next academic year.*

*The school communicates with parents/carers via phone calls, the text messaging system, website and closed Facebook group. In today's climate, the school continues to support all members of the school community and continues to fund provision such as ELSA, Thrive, parent/carer drop-in support and wellbeing sessions. The school offers a free of charge preloved uniform rail at reception, which is open during school hours to all parents.*

*Please stay safe and well in the current times and do not hesitate to contact the school if you require any further support, whether academic or pastoral/personal. Thank you once again for your continued support for our school and your children.*

*Nik Dart, Chair of Governors*

## 1. MANYLION CYFARFODYDD / *DETAILS OF MEETINGS*

Ni chafodd y Corff Llywodraethu ddeiseb yn gofyn am gyfarfod ac felly ni chafodd cyfarfod ei gynnull.
*The Governing Body did not receive a petition requesting a meeting and therefore a meeting was not convened.*

## 2. ETHOL RHIANT-LYWODRAETHWYR / *ELECTION OF PARENT GOVERNORS*

Nid ydym yn dal unrhyw swyddi llywodraethwyr gwag ar hyn o bryd.
*We are currently not holding any governor vacancies.*

## 3. DATA AR BERFFORMIAD / *PERFORMANCE DATA*

Ni chyhoeddwyd unrhyw ddata perfformiad eleni oherwydd Covid-19. Mae tîm yr ysgol yn parhau i fonitro cynnydd holl ddisgyblion Bro Ogwr. Mae cyllid dal i fyny diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r ysgol i ddefnyddio ei thîm ymyraethau mewnol arbenigol i ddarparu cymorth ychwanegol i blant sydd angen hyn. Mae llywodraethwyr yn parhau i fonitro data cynnydd mewnol trwy'r is-bwyllgor Cwricwlwm, Data a Safonau a thrwy gyswllt agos â'n Partner Gwella Consortiwm Canolbarth y De, Mr Duan Evans. Mae'r corff llywodraethu wedi penodi llywodraethwyr cyswllt yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Datblygu Ysgol i fonitro meysydd megis gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru a diwygio'r Cod ADY newydd.

*No performance data was published this year due to Covid-19. The school team continues to monitor the progress of all pupils at Bro Ogwr. Recent catch-up funding from the Welsh Government has enabled the school to utilise its specialist internal interventions team to provide additional support for children requiring this. Governors continue to monitor internal progress data through the Curriculum, Data and Standards sub-committee and through close liaison with our Central South Consortium Improvement Partner, Mr Duan Evans. The governing body has appointed link governors in line with the priorities outlined in the School Development Plan to monitor areas such as the implementation of the new Curriculum for Wales and the new ALN Code.*

## 4. PRESENOLDEB / *ATTENDANCE*

Rydym yn annog rhieni/gofalwyr i weithio gyda'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol ac yn brydlon a chyfyngu ar wyliau yn ystod y tymor lle bo modd. Mae ein gweithdrefnau diogelu yn cynnwys cyswllt dyddiol ar gyfer y rhai nad ydynt yn mynychu'r ysgol a darperir cymorth lle bo'n briodol i wella presenoldeb a phrydlondeb, a all gynnwys cyfeirio at asiantaethau allanol os oes angen. Mae presenoldeb yn cael ei fonitro'n barhaus gan y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth mewn cysylltiad â'n Swyddog Lles Addysg a'n llywodraethwr cyswllt ar gyfer y maes hwn.

*We encourage parents/carers to work with the school to ensure that pupils attend school daily and punctually and limit holidays during term time where possible. Our safeguarding procedures include daily contact for non-attendees to school and support is provided where appropriate to improve attendance and punctuality, which may include referral to outside agencies if required. Attendance is continually monitored by the Headteacher and Senior Leadership Team in liaison with our Education Welfare Officer and our link governor for this area.*

## 5. GWEITHGAREDDAU CHWARAEON AC ALLGYRSIOL / *SPORTING AND EXTRACURRICULAR ACTIVITIES*

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan lawn a gweithgar mewn llawer o weithgareddau chwaraeon ac allgyrsiol o fewn y sir ynghyd â chystadlaethau Cenedlaethol a rhai a drefnir gan Urdd Gobaith Cymru. Mae gwybodaeth am weithgareddau allgyrsiol a chwaraeon yn cael ei chyfathrebu'n eang gan yr ysgol; caiff rhieni eu diweddaru'n rheolaidd gyda digwyddiadau a chyflawniadau a gallant ddilyn digwyddiadau ar X (eisoes yn cael ei alw'n Trydar) lle bo modd. Mae llywodraethwyr yn rhoi diolch i staff a rhieni am eu cefnogaeth i ddigwyddiadau allgyrsiol eleni ac fel ysgol rydym yn parhau i ddathlu llwyddiannau lu yn y maes hwn.

*The school has taken a full and active part in many sporting and extracurricular activities within the county along with National competitions and those organised by Urdd Gobaith Cymru. Information about extracurricular and sporting activities are widely communicated by the school; parents are regularly updated with events and achievements and are able to follow events on X (previously known as Twitter) where possible. Governors thank staff and parents for their support of extracurricular events this year and as a school we continue to celebrate many successes in this area.*

## 6. MANYLION AELODAETH O'R CORFF LLYWODRAETHU / *GOVERNING BODY MEMBERSHIP DETAILS*

Cadeirydd y Corff Llywodraethu yw Mrs Nik Dart d/o Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.
Clerc y Corff Llywodraethu yw Mrs Simone Delaney d/o Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.

*The Chair of the Governing Body is Mrs Nik Dart c/o Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.*
*The Clerk to the Governing Body is Mrs Simone Delaney c/o Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.*

**MAE'R RHESTR O LYWODRAETHWYR FEL A GANLYN:**
***LIST OF GOVERNORS IS AS FOLLOWS:***

**Yr Awdurdod Lleol / *Local Authority***

Mrs H Lowcock-James (Is-Gadeirydd / Vice Chair)

Ms R Powell

Mr B Morgan

Mrs C Johnson

**Cymunedol / *Community***

Mr J Slade

Mrs E Martin

Mrs N Dart (Cadeirydd / *Chair*)

Cllr K Hughes (CC rep)

Mr M Stephens

**Rhiant / *Parent***

Mrs E Howard

Mr C Stephens

Mrs H Watkins

Mrs C Davies

Mrs T Davies

**Staff Cymorth / *Support Staff***

Mrs H M Ellis

**Staff Addygsu/ Teaching Staff**

Miss C Carrington

Miss E Evans

**Pennaeth / *Headteacher***

Mrs S Jayne

## 7. DATGANIAD ARIANNOL 2022/2023 *FINANCIAL STATEMENT*

| | |
|---|---|
| **GWEITHWYR / EMPLOYEES** | |
| ATHRAWON / TEACHERS | 1014089 |
| GWEITHWYR CEFNOGI YSGOL / SCHOOL SUPPORT WORKERS | 51721 |
| CLERC A CHEFNOGAETH DOSBARTH / CLERKS AND CLASSROOM SUPPORT | 319205 |
| STAFF ASIAENTAETH / AGENCY STAFF | 212332 |
| YSWIRIANT SALWCH A MAMOLAETH / SICKNESS AND MATERNITY INSURANCE | 30513 |
| HYFFORDDIANT STAFF / STAFF TRAINING | 2653 |
| COSTAU ARALL ee HEDDLU / OTHER COSTS eg POLICE CHECKS | 836 |
| | **1631349** |
| **COSTAU SAFLE AC ADEILAD / PREMISES AND RELATED COSTS** | |
| CYNNAL A CHADW TIR / GROUNDS MAINTENANCE | 5957 |
| TRWSIADAU AC ATI I ADEILADAU / REPAIRS, ETC TO BUILDINGS | 19617 |
| EGNI / ENERGY | 25253 |
| TRETHI / RATES | 25011 |
| GWASANAETHAU DWR / WATER SERVICES | 8030 |
| SEFYDLIADAU / FIXTURES AND FITTINGS | 141 |
| GWASANAETHAU GLANHAU / CLEANING AND DOMESTIC SERVICES | 38178 |
| | **122187** |
| **COSTAU TRAFNIDIAETH / TRANSPORT AND RELATED COSTS** | |
| DEFNYDD O GYMWYSTERAU LLEOL / USE OF DISTRICT FACILITIES | 2545 |
| TRAFNIDIAETH GWEITHGAREDDAU YSGOL / SCHOOL ACTIVITIES TRANSPORT | 7305 |
| LWFANS CAR/TEITHIO STAFF/ CAR ALLOWANCES/STAFF TRAVEL | 0 |
| | **9850** |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU / SUPPLIES AND SERVICES** | |
| CYLLID (DEFNYDD ADDYSGU) / CAPITATION (TEACHING MATERIALS) | 56186 |
| COSTAU PRYDIAU YSGOL / SCHOOL MEAL COSTS | 70588 |
| COSTAU TGCh / ICT RELATED COSTS | 23127 |
| ARGRAFFU, DEUNYDD YSGRIFENNU / PRINTING, STATIONERY | 6853 |
| FFONAU/BROADBAND / TELEPHONES/BROADBAND | 3732 |
| YSWIRIANT / INSURANCE | 4078 |
| CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH / SERVICE LEVEL AGREEMENT | 29848 |
| GWASTRAFF MASNACH / TRADE WASTE | 1638 |
| LLOGI / LEASING | 7073 |
| GWARIANT AMRYWIOL / MISCELLANEOUS EXPENDITURE | 3816 |
| | **206939** |
| GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU / WELSH GOVERNMENT GRANTS | 216983 |
| GRANTIAU YSGOL ERAILL / OTHER SCHOOL GRANTS | 115603 |
| INCWM STAFF SECONDIAD / STAFF SECONDMENT INCOME | 26818 |
| INCWM STAFF CYFLENWI / SUPPLY COVER INCOME | 1350 |
| INCWM PRYDIAU YSGOL / SCHOOL MEAL INCOME | 47235 |
| FFIOEDD GWERSI OFFERYNNOL / MUSIC TUITION FEES | 420 |
| | **408409** |
| | **1561916** |

## 8. CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL / *COMMUNITY LINKS*

Mae gan yr ysgol gysylltiadau ag amryw fudiadau a sefydliadau sy'n cynnwys:

Menter Bro Ogwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Capeli ac Eglwysi lleol, Banc Bwyd, Cyngor Cymuned Bracla, Cystadlaethau Traws Gwlad, Athletau, Rygbi a Phêl-rwyd Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr, elusennau amrywiol, Y Gwasanaethau Cymdeithasol, Eco Sgolion, BBC, Glamorgan Gazette, S4C, Nyrs Ysgol, Hyfforddiant Beicio, Cwmni Theatr M&M, Coleg Pen-y-bont. Rydym yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau cymunedol ac yn gwahodd rhieni/gwarcheidwaid i gysylltu â ni os oes ganddynt gysylltiadau â grwpiau cymunedol a fyddai â diddordeb mewn gweithio gyda ni.

*The school has many links with various organisations which include:*

*Menter Bro Ogwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, South Wales Police, South Wales Fire and Rescue Service, local churches and chapels, Food Bank, Brackla Community Council, Bridgend Schools Cross Country, Athletics, Rugby and Netball Competitions, Bridgend Library, various charities, Social Services, Eco Schools, BBC, Glamorgan Gazette, S4C, School Nurse, Cycle Training, M&M Theatre, Bridgend College. We are continuing to develop our community links and invite parents/carers to contact us if they have links with community groups who would be interested in working with us.*

## 9. TARGEDAU AR GYFER GWELLA 2023 – 2024 *TARGETS FOR IMPROVEMENT*

Caiff ein targedau ar gyfer gwella ym mlwyddyn academaidd 2023-2024 eu rhestru isod. Hoffem ddiolch i arweinwyr yr ysgol sydd â chyfrifoldeb am y meysydd hyn ac i holl staff yr ysgol am eu hymrwymiad i gyflawni'r llwyddiant hwn.

*Our targets for improvement for the academic year 2023-2024 are listed below. We thank school leaders with responsibility for these areas and all school staff for their commitment to achieving this success.*

**Blaenoriaethau / *Priorities***

| | |
|---|---|
| 1 | *Cwricwlwm i Gymru*<br>*Curriculum for Wales* |
| 2 | *Lles*<br>*Wellbeing* |
| 3 | *Cod a Chefnogaeth ADY*<br>*ALN Code and Support* |
| 4 | *Lythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol*<br>*Literacy, Numeracy and Digital Competency* |

## 10. ADOLYGIAD O BOLISÏAU A STRATEGAETHAU / *REVIEW OF POLICIES AND STRATEGIES*

Mae'r Corff Llywodraethol, trwy ei strwythur pwyllgorau, yn cynnal adolygiadau blynyddol a dwy flynedd o bolisïau ysgol. Yn ystod cyfarfodydd tymhorol y Corff Llywodraethol Llawn, mae'r Corff Llywodraethol yn trafod ac yn mabwysiadu, fel y bo'n briodol, bolisïau newydd ac wedi'u hadolygu a gyflwynir gan yr Awdurdod Lleol. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i drafod ac adolygu strategaethau ysgol yn rheolaidd. Mae'r Corff Llywodraethol Llawn trwy ei is-bwyllgorau, rolau llywodraethwyr cyswllt ac ymweliadau strategol yn cyfrannu at y Cynllun Datblygu Ysgol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae polisïau ysgol perthnasol ar gael ar wefan yr ysgol.

*The Governing Body, through its committee structure, undertakes annual and bi-annual reviews of school policies. During the termly Full Governing Body meetings, the Governing Body discusses and adopts, as appropriate, new and reviewed policies brought forward by the Local Authority. Governors work closely with the Headteacher and the Senior Leadership Team to discuss and review school strategies on a regular basis. The Full Governing Body through its sub committees, link governor roles and strategic visits contribute to the School Improvement Plan for the forthcoming year. Relevant school policies are available on the school website.*

## 11. DYDDIADAU TYMHORAU / *TERM DATES*

**Blwyddyn Academaidd 2023-24 *Academic Year***

| **Tymor**<br>**Term** | **Dechrau Tymor**<br>**Term Begins** | **Gwyliau Hanner Tymor**<br>**Half term holiday** | | **Diwedd Tymor**<br>**Term Ends** |
|---|---|---|---|---|
| | | **Dechrau/Begins** | **Diwedd/Ends** | |
| Tymor yr Hydref Autumn Term 2023 | 04.09.23 | 30.10.23 | 03.11.23 | 22.12.23 |
| Tynor y Gwanwyn Spring Term 2024 | 08.01.24 | 12.02.24 | 16.02.24 | 22.03.24 |
| Tymor yr Haf Summer Term 2024 | 08.04.24 | 27.05.24 | 31.05.24 | 22.07.24 |

## <u>Diwrnodau HMS / *INSET Days*</u>

04.09.23

27.10.23

19.02.24

03.05.24

24.06.24


22.07.24

### 12. PROSBECTWS YR YSGOL / *SCHOOL PROSPECTUS*

Mae prosbectws yr ysgol yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a'i ailysgrifennu i adlewyrchu newidiadau o ran Aelodau'r Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae ar gael o'r ysgol neu ar wefan yr ysgol.

*The school prospectus is updated annually and rewritten to reflect changes in Governors and Staff members, along with any new legislation. It is available from school or on the school website.*

### 13. Y CWRICWLWM A DULLIAU ADDYSGU / *CURRICULUM AND TEACHING METHODS*




Gwelwch **'Cwricwlwm Bro Ogwr Curriculum'** sydd ar wefan yr Ysgol.

*Please see "***Cwricwlwm Bro Ogwr Curriculum'** *which is on the school website.*

### 14. CATEGORI IAITH A DEFNYDD O'R GYMRAEG / *LANGUAGE CATEGORY AND USE OF THE WELSH LANGUAGE*

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. O'r Meithrin hyd at flwyddyn 2 addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. O flwyddyn 3 i 6 addysgir pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg heblaw am Saesneg, a gyflwynir ym Mlwyddyn 3. Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn rhoi safon iaith ragorol i'r disgyblion o ran y Gymraeg ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o destunau a gwmpesir gan y "Cwricwlwm Cymreig" a'r "Siarter Iaith".

*Ysgol Gymraeg Bro Ogwr is a Welsh medium school. The Welsh language is the official language of the school. From Nursery to Year 2 all subjects are taught through the medium of Welsh. In Years 3 to 6 subjects are taught through the medium of Welsh apart from English, which is introduced in Year 3. Ysgol Gymraeg Bro Ogwr provides pupils with an excellent*

*standard of Welsh and ensures that all pupils are able to access a wide variety of topics covered by the "Curriculum Cymreig" and 'Y Siarter Iaith'.*

### 15. CYFLEUSTERAU TOILEDAU / *TOILET FACILITIES*

Ceir darpariaeth ddigonol o ran cyfleusterau toiledau ar gyfer yr holl ddisgyblion o Feithrin hyd at flwyddyn 2. Mae'r holl gyfleusterau wedi'u lleoli ym mhrif adeilad yr ysgol. Mae nifer y toiledau sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion o flwyddyn 3 hyd at 6. Ceir cyfleusterau digonol, ar wahân ar gyfer bechgyn a merched yn y blynyddoedd yma. Mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli ym mhrif adeilad yr ysgol a hefyd yn y cabanau sydd wedi'u lleoli y tu ôl i adeilad yr ysgol.  Mae'r plant yn dda am edrych ar ôl ardaloedd yr holl doiledau ar y cyfan. Mae'r toiledau'n cael eu glanhau'n ddyddiol gan y Gwasanaethau Glanhau Corfforaethol a gyflogir yn yr ysgol. Mae unrhyw faterion gweithredol neu lanhau yn ystod y diwrnod ysgol yn cael sylw prydlon gan staff yr ysgol.

*There is adequate provision of toilet facilities for all pupils from Nursery to Year 2.  All the facilities are located within the main school building. The number of toilets available is adequate for the number of pupils in Years 3 to 6.  There are separate, adequate facilities for boys and girls in these year groups.  The facilities are located within the main school building and also in the demountable buildings situated at the rear of the school building. All toilet areas are generally well looked after by the pupils.  The toilets are cleaned daily by the Corporate Cleaning Services employed by the school.  Any operational or cleaning issues during the school day are addressed promptly by school staff.*

### 16. BWYTA'N IACH / *HEALTHY EATING*

Daeth y "Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion" i rym ddydd Llun 2 Medi 2013. Mae'r Ysgol wedi derbyn tystysgrif gan yr Awdurdod yn nodi bod y fwydlen a ddarperir gan Wasanaethau Arlwyo'r Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru " Blas am Oes". Mae llywodraethwyr yn trafod yr elfen hon o'r cwricwlwm gyda staff allweddol yr ysgol ac o 2022 ymlaen bydd yn cynnwys yr elfen hon yn ei monitro drwy gydol y flwyddyn ysgol.

*The "Healthy Eating in Schools Measure" came into force on Monday 2nd September 2013. The School has received a certificate from the Authority stating that the menu provided by the Authority's Catering Services is fully compliant with the standards set out in the Welsh Government document "Appetite for Life".  Governors discuss this element of the curriculum with key school staff and from 2022 onwards will include this element in its monitoring throughout the school year.*

### 17. FFRINDIAU BRO OGWR *PTA*

Diolch yn fawr i'r rhieni a wnaeth ail-sefydlu Ffrindiau Bro Ogwr llynedd. Mae sawl digwyddiad wedi bod yn barod i godi arian ar gyfer ein hysgol a disgyblion megis disgo, ffair haf, diwrnodau codi arian, raffl ac ati. Bwriad Ffrindiau yw i gyfrannu at brynu offer VR, gwisg chwaraeon a mwy o ddillad gwlyb ar gyfer gwaith awyr agored. Edrychwn 'mlaen ar y llu o weithgareddau y flwyddyn yma.

*Thank you to all the parents who re-established Ffrindiau Bro Ogwr last year. There have been several fund-raising events so far to raise money for our School and pupils, such as disco, summer fete, fund-raising days, raffle etc. Ffrindiau's aim is to contibute to buy VR headsets, sports kit and more wet weather clothing for Outdoor learning. We look forward to the many activities planned for this year.*